# Adolygiad Rheoleiddio

## Dyddiad: Mehefin 2026

## Caredig Cyfyngedig – L002

## Dyfarniad

| Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau | |
|---|---|
| **Gwyrdd** | **Mae'r RSL yn bodloni ein gofynion.** |
| **Hyfywedd Ariannol** | |
| **Melyn** | **Mae'r landlord yn bodloni ein gofynion ac mae angen iddo barhau i reoli risgiau perthnasol er mwyn cynnal y sefyllfa hon.** |

Mae newid i sgôr hyfywedd ariannol (Gwyrdd i Felyn) yn dangos bod ein gofynion wedi'u bodloni, ond mae proffil ariannol yr RSL yn golygu y gallai fod yn fwy heriol lliniaru effaith risg, neu gyfuniad o risgiau, pe baent yn digwydd.

### Y Broses Asesu

Cynhaliwyd yr asesiad yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru 2025. Roedd yn cynnwys adolygiad bwrdd gwaith o hunanwerthusiad y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL), ei gynllun gwella cydymffurfiaeth a metrigau hyfywedd ariannol. Ystyriwyd gwybodaeth o gyswllt rheoleiddiol arferol â'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig hefyd.

### Gofynion Hunanwerthuso a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025

Roeddem yn gallu dod i'r casgliad bod yr hunanwerthusiad yn bodloni'n llawn yr holl ofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025

Mae Caredig wedi cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

### Proffil

| | |
|---|---|
| **Nifer yr Unedau** | **2,921** |
| **Trosiant Blynyddol** | **£29.5M** |
| **Gerio** | **40%** |
| **Sicrwydd Llog** | **129%** |
| **Math o Landlord Cymdeithasol Cofrestredig** | **Traddodiadol** |
| **Lleoliad** | **De-orllewin Cymru** |

*Mae'r wybodaeth o 31 Mawrth 2025, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.*

Mae dyfarniadau rheoleiddio'n cael eu llunio i roi syniad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y

maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar y canlynol:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniadau at unrhyw ddiben arall. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gyfrifol am gyflawnrwydd a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhydycar
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@llyw.cymru

ISBN Digidol 978-1-83715-914-7
Hawlfraint y Goron 2026